# TAG Hanes

## Asesiad Di-arholiad

### 1.1 Beth yw'r Asesiad Di-arholiad?

Yr Asesiad Di-Arholiad yw'r broses o gynnal ymchwil annibynnol ar fater sy'n agored i ddehongliadau gwahanol. Daw'r cyfnod hwnnw o ymchwil i ben gyda'r dysgwr yn casglu ei ymchwil mewn gwerthusiad ysgrifenedig estynedig sy'n gwneud y canlynol: ymateb yn gyson i'r mater gosod; yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth gyfoes; yn dadlau sut a pham y cafodd y mater ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol; ac yn cynnig barn gyson wedi'i chefnogi ar yr hyn yw, ym marn y dysgwr, yr esboniad mwyaf rhesymol o'r mater yn ei gwestiwn.

#### Pwyntiau allweddol

- Gwerthusiad ysgrifenedig o fater gosod yr ymchwilir iddo'n annibynnol yw'r Asesiad Di-arholiad
- Mae'n defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth gyfoes
- Mae'n dadlau sut a pham y cafodd y mater ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol
- Mae'n cynnig barn wedi'i hategu ar y mater gosod

### 1.2 Beth yw pwrpas yr Asesiad Di-Arholiad?

Mae'r Asesiad Di-Arholiad yn adlewyrchu o bosibl yr agweddau pwysicaf ar waith hanesydd: coladu, dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gliriach o ddigwyddiad, cyfnod, neu berson penodol. Deall sut a pham mae rhywbeth wedi digwydd, a sut a pham mae pobl wedi ei ddehongli mewn ffyrdd amrywiol: weithiau i adlewyrchu eu bydolwg eu hunain, weithiau i siapio sut y maen nhw eisiau i rywbeth gael ei ddehongli, ac weithiau i newid y ffyrdd mae eraill yn meddwl am rywbeth, naill ai yn y gorffennol, neu weithiau yn y presennol.

Mae cwblhau'r Asesiad Di-Arholiad yn llwyddiannus yn dwyn ynghyd y tri Amcan Asesu sy'n sail i TAG Hanes:

**AA1** Dangos, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi a gwerthuso'r nodweddion allweddol sy'n perthyn i'r cyfnodau a astudiwyd, gan wneud safbwyntiau cadarnhaol ac archwilio cysyniadau, fel y bo'n briodol, o achos, canlyniad, newid, parhad, tebygrwydd, gwahaniaeth ac arwyddocâd.

**AA2** Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, sy'n gynradd a/neu'n gyfoes i'r cyfnod, o fewn ei gyd-destun hanesyddol

**AA3** Dadansoddi a gwerthuso, mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli.

#### Pwyntiau allweddol

- Mae'r Asesiad Di-arholiad yn caniatáu i ddysgwyr gyflawni tasg sy'n seiliedig ar ymchwil gan ddefnyddio dulliau hanesydd proffesiynol
- Mae'n galluogi dysgwyr i ystyried sut y gellir defnyddio tystiolaeth – a'i thrin - i ffurfio naratif ar sut y gellid dehongli cyfnod o hanes
- Mae'n dwyn ynghyd dri amcan asesu TAG Hanes: defnyddio gwybodaeth i ffurfio barn wedi'i chyfiawnhau; cymhwyso sgiliau i farnu deunydd ffynhonnell gyfoes yn ei gyd-destun hanesyddol ei hun; y ddealltwriaeth o sut – a pham – mae'r gorffennol hwnnw wedi cael ei ddehongli
- Mae'n galluogi dysgwyr i gymhwyso'r sgiliau hyn ar gyfer eu bywydau bob dydd drwy annog dull seiliedig ar dystiolaeth o wneud penderfyniadau a llunio barn

### 1.3 A ellir seilio'r Asesiad Di-arholiad ar unrhyw destun?

Gall yr Asesiad Di-Arholiad a ddewisir ganiatáu i ddysgwyr ymestyn a gwella eu dealltwriaeth o agweddau ar yr hanes a

#### Pwyntiau allweddol

- Gall yr Asesiad Di-arholiad fod ar unrhyw destun yn hanes y byd ar

astudir yn rhannau ehangach y fanyleb, ac – yn amodol ar argaeledd ffynonellau cyfoes – gellir ei dynnu o unrhyw faes o hanes y byd. Gall fod ar faes hanes nas astudiwyd mewn mannau eraill yn y fanyleb, maes dysgu blaenorol, neu faes o ddiddordeb arall. Er y gellir tynnu'r Asesiad Di-Arholiad o destunau o fewn Uned 1 (yr astudiaeth o gyfnod) neu Uned 3 (yr astudiaeth eang), er mwyn cael ymdriniaeth ddigonol, ni ddylid ei dynnu o'r cynnwys a nodir yn yr Astudiaeth Fanwl a ddewisir ar gyfer Unedau 2 a 4.

Gall y detholiad o gwestiynau priodol ychwanegu cydlyniad ac ehangu gwybodaeth i'r cwrs cyffredinol drwy ganiatáu i ddysgwyr ymestyn a gwella eu gwybodaeth am agweddau ar yr hanes a astudir yn unedau ehangach y cwrs; astudio testun sy'n ymestyn neu'n newid amrywiaeth neu raddfa eu gwybodaeth hanesyddol; astudio math gwahanol o hanes i'r hyn y maent yn ei astudio yn eu hunedau eraill, er enghraifft hanes economaidd neu gymdeithasol; ategu eu dysgu mewn meysydd eraill o'r cwrs neu, mewn rhai achosion, eu pynciau eraill.

Noder, er na all yr Asesiad Di-arholiad fod wedi'i seilio ar yr Astudiaeth Fanwl a ddewiswyd gan y ganolfan, gall gael ei seilio ar yr un blynyddoedd ag a astudiwyd ar gyfer yr Astudiaeth Fanwl. Er enghraifft, gallai dysgwyr sy'n astudio'r Almaen Natsïaidd 1933 i 1945 yn Uned 4 edrych ar y polisi dyhuddo o safbwynt Prydeinig neu'r Dirwasgiad yn yr Unol Daleithiau yn ystod yr 1930au.

yr amod bod digon o ddeunydd, sy'n hygyrch i ddysgwyr, i gefnogi cwblhau'r dasg

- Rhaid peidio â thynnu'r Asesiad Di-arholiad o'r astudiaeth fanwl (Unedau 2 a 4)
- Gellir tynnu'r Asesiad Di-arholiad o'r astudiaeth cyfnod (Uned 1) neu'r astudiaeth eang (Uned 3)
- Gall yr Asesiad Di-arholiad ategu neu gyferbynnu astudiaeth ehangach y dysgwyr o Hanes
- Gellir defnyddio'r Asesiad Di-arholiad i gefnogi maes arall o astudiaethau'r dysgwyr, er enghraifft cerddoriaeth, celf, gwyddoniaeth, iaith, a llenyddiaeth

## 1.4 Sut mae'r Asesiad Di-arholiad yn cael ei gyflwyno?

Mae canolfannau a/neu ddysgwyr unigol yn rhydd i gynnig ymholiad yn amodol ar argaeledd amrywiaeth briodol o ffynonellau cyfoes ac amrywiaeth briodol o ddehongliadau hanesyddol.

Dros gylchred o dair blynedd, gall y canolfannau gynnig hyd at bedwar teitl i'r dysgwyr yn y garfan – unwaith eto, yn dibynnu ar yr arweiniad y bydd CBAC yn ei ddarparu. Gall yr ymchwiliad arfaethedig ganolbwyntio ar destun yn fanwl neu fater dros gyfnod estynedig. Ar ddiwedd y gylchred o dair blynedd, rhaid i ganolfannau gyflwyno cwestiynau newydd nad ydynt yn efelychu, neu'n gwrthddweud i, ffocws unrhyw Asesiad Di-arholiad gosod blaenorol

Mae ffurflenni cynnig ar gyfer canolfannau ac ar gyfer dysgwyr unigol ar gael ar yr adran TAG Hanes ar wefan CBAC.

Mae adran TAG Hanes gwefan CBAC hefyd yn cynnwys amrywiaeth o deitlau posibl ar gyfer yr Asesiad Di-Arholiad y gallai canolfannau fod eisiau eu hystyried. Gall dysgwyr unigol ddefnyddio'r teitlau hyn fel sail i'w teitlau eu hunain, ond ni allant eu copïo gair am air.

### Pwyntiau allweddol

- Mae canolfannau yn gosod hyd at bedwar teitl ar gylchred o dair blynedd
- Rhaid i ganolfannau newid y teitl ar ddiwedd y gylchred ac ni allent gyflwyno teitl neu deitlau newydd sy'n efelychu neu'n gwrthddweud teitlau a ddefnyddiwyd yn flaenorol
- Croesawir cyflwyniadau dysgwyr unigol (sy'n cael eu cyflwyno drwy'r ganolfan) hefyd
- Mae ffurflenni cyflwyno ac amrywiaeth o deitlau cymeradwy ar gael ar wefan CBAC

## 1.5 Beth yw rôl y dysgwr yn yr Asesiad Di-arholiad?

### Pwyntiau allweddol

Wrth gwblhau'r Asesiad Di-arholiad, rhaid i ddysgwyr ymchwilio'n annibynnol ac yn unigol i gyd-destun penodol yr ymholiad, dod o hyd i, dadansoddi, a gwerthuso, amrywiaeth o dystiolaeth gynradd a/neu gyfoes, ac ymchwilio a dod o hyd i o leiaf dau ddehongliad hanesyddol arall i'r hyn a nodir yn y cwestiwn. Rhaid iddynt esbonio sut, a pham, mae gwahaniaethau mewn dehongliadau hanesyddol, gan sicrhau eu bod yn ateb y cwestiwn a osodwyd drwy roi barn wedi'i chyfiawnhau.

Rhaid i ddysgwyr arwyddo datganiad yn datgan mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith.

- Mae'r Asesiad Di-arholiad yn dasg annibynnol ac unigol ar gyfer pob dysgwr
- Mae'n canolbwyntio ar ddadansoddi a gwerthuso ffynonellau cyfoes ac ar ddatblygiad dehongliadau hanesyddol
- Rhaid i ddysgwyr arwyddo datganiad yn datgan mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith

## 1.6 Beth yw rôl yr athro yn yr Asesiad Di-arholiad?

I ddechrau, cyfrifoldeb yr athro/athrawon ym mhob canolfan yw cael cymeradwyaeth ar gyfer teitlau a osodir gan y ganolfan, neu'r teitlau a osodir gan y dysgwyr cyn i unrhyw waith ddechrau ar yr Asesiad Di-arholiad. Ar ôl hynny, rôl allweddol yr athrawon yw goruchwylio gwaith y dysgwyr. Anogir athrawon i gefnogi dysgwyr yn y gwaith o ddatblygu sgiliau ymholi a chyflwyno, er enghraifft, cadw cofnodion yn effeithiol a sgiliau cyfeirio a chynllunio a sicrhau eu bod yn dangos i ddysgwyr sut i ddefnyddio llyfrau, erthyglau, llyfrgelloedd, swyddfeydd cofnodion a'r rhyngrwyd, fel y bo'n briodol, i ddatblygu sgiliau ymchwil a chasglu tystiolaeth.

Er bod athrawon wedi eu gwahardd rhag dysgu cynnwys penodol yr Asesiad Di-arholiad, anogir athrawon i gynnig cwrs sgiliau byr sy'n cefnogi dysgwyr cyn iddynt gychwyn ar eu Hasesiadau Di-arholiad. Gall y cwrs hwn, er enghraifft, gynnwys cyfres o wersi neu seminarau ar feini prawf yr amcanion asesu, ymchwil, cadw cofnodion, ysgrifennu hanesyddol da, cyfeirio, sut i osgoi llên-ladrad, a natur hanesyddiaeth.

Caniateir hefyd i athrawon ddarparu cyflwyniad i'r maes hanes yr ymdrinnir ag ef yn yr Asesiadau Di-arholiad a gynigir; fodd bynnag, rhaid iddynt beidio ag addysgu unrhyw agwedd ar y cwestiwn penodol. Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at yr enghraifft ganlynol.

**“Cyfnod ansefydlogrwydd meddyliol Harri VI oedd prif achos dechreuad Rhyfeloedd y Rhosynnod yn 1455.” Pa mor ddilys yw'r asesiad hwn o'r rhesymau dros ddechreuad Rhyfeloedd y Rhosynnod yn Lloegr yn 1455?**

Ar gyfer y cwestiwn hwn, gall athrawon roi cefndir cyffredinol i'r sefyllfa yn Lloegr yn ystod dechrau'r 14eg ganrif ond rhaid iddynt beidio â darparu unrhyw arweiniad ynghylch achosion dechreuad Rhyfeloedd y Rhosynnod.

Caniateir i athrawon adolygu un drafft o'r Asesiad Di-arholiad, a gwneud arsylwadau cyffredinol ynglŷn â'r gwaith, ond rhaid iddynt beidio â gwneud awgrymiadau ar welliannau na diwygiadau i ddrafft yr ymarfer y tu hwnt i dynnu sylw at y meini prawf yn y cynllun marcio. Pan fydd yr ymarfer wedi'i gwblhau, rhaid i athrawon farcio, anodi a – lle bo hynny'n berthnasol – cymedroli'r Asesiad Di-arholiad cyn cyflwyno.

## Pwyntiau allweddol

- Rhaid i athrawon gael cymeradwyaeth i'r teitlau cyn i ddysgwyr ddechrau gweithio arnynt
- Rôl allweddol athrawon yw goruchwylio proses yr Asesiad Di-arholiad
- Caniateir i athrawon ddarparu cwrs sgiliau er mwyn hwyluso cwblhau'r Asesiad Di-arholiad
- Gall athrawon ddarparu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cyfnod ehangach, ond maent wedi eu gwahardd yn llwyr rhag addysgu unrhyw ddeunydd hanesyddol sy'n benodol i'r Asesiad Di-arholiad
- Gall athrawon adolygu un drafft o'r Asesiad Di-arholiad a chynnig adborth cyffredinol
- Mae'n rhaid i athrawon farcio ac anodi'r Asesiad Di-arholiad

## 1.7 Beth mae'r Asesiad Di-arholiad yn ei gyfrannu at Safon Uwch?

O ran gwerth yr Asesiad Di-arholiad i'r marciau sydd ar gael ar gyfer TAG Hanes, mae'r Asesiad Di-arholiad yn cyfrif am 20% o'r TAG cyffredinol, sy'n cyfateb i draean o'r Safon Uwch (mae'r ddwy Uned UG yn werth 40% ac mae'r tair uned Safon Uwch yn werth 60%). O ran yr hyn y mae'r Asesiad Di-arholiad yn ei gyfrannu at gyflawniadau dysgwyr, yr Asesiad Di-arholiad yw unig faes y cwrs sy'n galluogi dysgwyr i gyfuno'r tri Amcan Asesu mewn un darn o waith.

### Pwyntiau allweddol

- Mae'r Asesiad Di-arholiad yn gyfystyr â 33.3% o ail flwyddyn y cwrs Safon Uwch
- O'i gyfuno ag UG Hanes, mae'r Asesiad Di-arholiad yn gyfystyr â 20% o'r TAG Hanes cyffredinol

## 2.1 Sut dylid strwythuro'r Asesiad Di-arholiad?

Nid oes ffordd ddelfrydol o strwythuro'r Asesiad Di-arholiad. Mae'n dasg sydd wedi'i chynllunio i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau o ran cyflwyno dadl wedi'i hymchwilio'n dda, ei gwerthuso'n effeithiol, a'i barnu'n gydlynol. O'r herwydd, ni ddylid defnyddio fframiau ysgrifennu gan fod y rhain yn amharu ar natur annibynnol y dasg a gallant gyfyngu ar gyfle dysgwr i ddatblygu sut maen nhw'n mynegi eu syniadau. Serch hynny, mae rhai disgwyliadau ynglŷn â'r darn o ysgrifennu gorffenedig.

Disgwylir iddo fod yn ymateb clir a chydlynol i'r cwestiwn gosod sy'n cael ei ysgrifennu mewn rhyddiaith ddi-dor, yn integreiddio amrywiaeth o ffynonellau cyfoes, ac yn gwerthuso sawl dehongliad gwahanol. Rhaid cynnwys y ffynonellau hyn ym mhrif gorff yr Asesiad Di-arholiad, ac mae'n rhaid gallu eu hadnabod yn glir. Y ffordd gliriaf o wneud hyn yw trwy fewnosod pob ffynhonnell mewn tabl un gell a'u labelu'n rhifiadol. Fodd bynnag, gellir gwneud hynny hefyd drwy fewnoli'r ffynonellau o fewn y testun neu italeiddio'r ffynhonnell (gan eu rhifo'n amlwg yn y ddau achos). Rhaid trawsgrifio ffynonellau ysgrifenedig. Yn rhy aml mae dysgwyr yn cyflwyno ffynonellau wedi'u sganio'n wael sydd, ar brydiau, yn amhosibl eu darllen. Ni all ffynonellau o'r fath ennill marciau. Gellir sganio neu gopïo a gludo ffynonellau gweledol, ond mae'n rhaid i'r dysgwr wneud yn siŵr ei fod yn ddarllenadwy. Rhaid trawsgrifio unrhyw feysydd testun, er enghraifft mewn swigod siarad.

Bydd dysgwyr hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ddehongliadau neu farn am y mater gosod yn eu hymateb. Gellir mewnosod y rhain hefyd mewn tabl un gell neu eu mewnoli, neu gellir eu hintegreiddio o fewn rhyddiaith yr Asesiad Di-arholiad. Gall dysgwyr hefyd labelu'r rhain, os ydynt yn dewis gwneud hynny. Er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt a'r ffynonellau, cynghorir, lle mae'r rhain wedi'u labelu, ei fod yn cael ei wneud yn nhrefn yr wyddor.

Ni waeth pa arddull sy'n cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr, wrth iddynt gwblhau darn ysgrifenedig yr Asesiad Di-arholiad, rhaid iddynt ganolbwyntio ar bwysleisio'r mater yn gyson yn y cwestiwn maen nhw'n ei ateb.

Sylwch nad adroddiad yw'r Asesiad Di-arholiad, ac **ni ddylid** ei ysgrifennu mewn arddull adroddiad. I fod yn glir, mae hynny'n golygu na ddylai gynnwys penawdau adran a/neu is-benawdau.

### Pwyntiau allweddol

- Does dim rhaid strwythuro'r Adroddiad Di-arholiad mewn ffordd benodol
- Rhaid iddo beidio â bod yn seiliedig ar ffrâm ysgrifennu a ddarparwyd gan yr athro
- Rhaid iddo ateb y cwestiwn gosod mewn darn estynedig o ryddiaith ddi-dor
- Sylwch nad adroddiad yw'r Adroddiad Di-arholiad, ac ni ddylid ei ysgrifennu mewn arddull adroddiad. Felly, ni ddylid rhannu'r Adroddiad Di-arholiad yn adrannau gydag is-benawdau
- Rhaid nodi ffynonellau a dehongliadau yn glir
- Rhaid integreiddio ffynonellau i gorff yr Asesiad Di-arholiad
- Rhaid teipio ffynonellau os ydynt yn ffynonellau ysgrifenedig
- Rhaid i ffynonellau fod yn ddealladwy os ydynt yn ffynonellau ysgrifenedig
- Rhaid rhestru ffynonellau yn rhifiadol
- Rhaid i ffynonellau gynnwys priodoliad yn esbonio beth ydyn nhw a phryd cawsant eu creu
- Gall dehongliadau gael eu hintegreiddio'n llawn i gorff yr Asesiad Di-arholiad, neu gallant gael eu mewnoli neu fod mewn blwch
- Dylai dehongliadau fod wedi'u rhestru yn nhrefn y wyddor os ydynt yn cael eu mewnoli neu eu rhoi mewn blychau
- Rhaid cyfeirio at ffynonellau a dehongliadau yn y llyfryddiaeth

## 2.2 Beth yw ystyr "ffynhonnell"?

O ran Hanes CBAC mae ffynhonnell yn ddarn o dystiolaeth gyfoes wedi ei dynnu o gyfnod y mater neu'r digwyddiad yn y cwestiwn. Gallai fod yn ffynhonnell sain a/neu weledol neu'n ffynhonnell ysgrifenedig. Rhaid trawsgrifio ffynonellau sain, ac mae ffynonellau ysgrifenedig yn gallu amrywio o ran hyd – o un frawddeg i tua un dudalen. Mae rhywfaint o hyblygrwydd o ran y dehongliad o 'ffynonellau cyfoes' yn dibynnu ar y cyfnod dan sylw yn yr Asesiad Di-arholiad. Byddai gorfodi'r rheol gyfoes yn ddieithriad ar gwestiynau o gyfnodau pellach yn ôl mewn Hanes yn eu hatal rhag cael eu hastudio, ac mae'r Asesiad Di-arholiad yn ei hanfod yn annog dysgwyr i archwilio meysydd hanes sydd o ddiddordeb iddynt a/neu sy'n ategu eu hastudiaethau ehangach. I gynorthwyo dysgwyr i ddeall yr hyn sydd ei angen gennym o ran "ffynonellau cyfoes" cyfeiriwch at y rheolau canlynol:

Ar gyfer cwestiynau **Hanes Modern** (materion sy'n dechrau ar neu ar ôl 1750 OCC), ffynonellau cyfoes yw'r rhai a *grëwyd ar adeg* benodol y digwyddiad.

- Gall y rhain gynnwys, er enghraifft adroddiadau newyddion ysgrifenedig, wedi'u recordio neu eu ffilmio, areithiau, adroddiadau/statudau'r llywodraeth, ffotograffau, cartwnau a deunyddiau gweledol eraill, cofnodion dyddiadur. Gallant hefyd gynnwys dramâu, ffilmiau a nofelau sy'n cynnig sylw cymdeithasol cyfoes neu, lle bo hynny'n berthnasol, yn bropagandaidd (h.y., *Buddugoliaeth yr Ewyllys)*.
- Ni allant gynnwys, er enghraifft, atgofion, rhaglenni dogfen, neu atgofion o bersonau a oedd yn bresennol mewn digwyddiad a wnaed cryn dipyn o amser ar ôl i'r digwyddiad hwnnw ddigwydd. Ni allant gynnwys dramâu, ffilmiau a nofelau sy'n hanesyddol neu'n fyfyriol eu natur (h.y., *Dunkirk*).

Ar gyfer cwestiynau **Hanes Modern Cynnar** (materion sy'n dechrau ar neu ar ôl 1450OCC ac yn dod i ben ar neu cyn 1750OCC), ffynonellau cyfoes yw'r rhai a *grëwyd yn y cyfnod* agos (hynny yw, o fewn ychydig ddegawdau) i'r digwyddiad, gan berson neu bersonau sydd â gwybodaeth arbenigol am y digwyddiad hwnnw.

- Gall y rhain gynnwys pamffledi, adroddiadau mewn papurau newydd neu gyfnodolion, areithiau, adroddiadau'r llywodraeth/statudau, cartwnau, torluniau pren a deunyddiau gweledol eraill, cofnodion dyddiadur, atgofion diweddarach o bersonau a oedd yn bresennol mewn digwyddiad, dramâu a nofelau wedi'u hysgrifennu a/neu eu cynhyrchu am y digwyddiad o fewn ychydig flynyddoedd iddo ddigwydd.
- Ni allant gynnwys "Dramâu hanes" (e.e., *Richard III* Shakespeare), bywgraffiadau, blwyddnodau, unrhyw ddarn o waith a grëwyd fwy nag ychydig ddegawdau ar ôl y digwyddiad.

Ar gyfer cwestiynau **Hanes Canoloesol neu gynnar** (materion sy'n dod i ben ar neu cyn 1450OCC), ffynonellau cyfoes yw'r rhai *a grëwyd yn ystod cyfnod* ehangach (hynny yw, o fewn canrif) y digwyddiad, gan berson neu bersonau a allai fod â gwybodaeth

## Pwyntiau allweddol

- Mae ffynonellau yn ddarnau o dystiolaeth sy'n perthyn i'r un cyfnod â'r mater neu'r digwyddiad sy'n cael ei drafod; fodd bynnag, yn ddibynnol ar y cyfnod dan sylw, mae rhai gwahaniaethau o ran categoreiddio
- Ar gyfer cwestiynau hanes modern, mae'n rhaid bod ffynonellau wedi eu creu ar adeg benodol y digwyddiad
- Ar gyfer cwestiynau hanes modern cynnar, mae'n rhaid bod ffynonellau wedi'u creu yn ystod y cyfnod sy'n agos i'r digwyddiad
- Ar gyfer cwestiynau hanes canoloesol a hanes cynnar, mae'n rhaid bod ffynonellau wedi'u creu yn ystod y cyfnod sy'n agos i'r digwyddiad
- Gall ffynonellau gymryd amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft dogfennau ysgrifenedig, tystiolaeth ddarluniadol, neu ddisgrifiadau ar lafar; fodd bynnag, rhaid iddynt gadw at y canllawiau sy'n berthnasol i'r cyfnod o hanes y mae'r cwestiwn yn yr Asesiad Di-arholiad yn canolbwyntio arno
- Mae'r canllawiau'n amrywio yn ôl y cyfnod o hanes sy'n cael ei asesu yn yr Asesiad Di-arholiad ac felly cynghorir dysgwyr i ymgyfarwyddo'n agos â'r canllawiau sy'n benodol i'r cyfnod hanesyddol y maent yn ei ddewis

uniongyrchol neu ail-law am y bobl neu o'r digwyddiadau a ddigwyddodd.

- Gall y rhain gynnwys areithiau wedi'u recordio, adroddiadau/statudau'r llywodraeth, cyhoeddiadau, torluniau pren, paentiadau, a deunyddiau gweledol eraill megis llawysgrifau goliwiedig, mapiau, cofnodion dyddiadur, atgofion diweddarach o bersonau a oedd yn bresennol mewn digwyddiad, croniclau, blwyddnodau, cerddi, tystiolaeth niwmismatig a/neu archaeolegol.
- Ni allant gynnwys cyfrifon ffuglennol, ailgreadau, unrhyw ddarn o waith a grëwyd dros ganrif ar ôl y digwyddiad.

## 2.3 Faint o ffynonellau sydd eu hangen?

Mae angen o leiaf chwe ffynhonnell gyfoes ar gyfer cwblhau'r Asesiad Di-arholiad. Gellir defnyddio mwy, ac, yn dibynnu ar y cwestiwn a hyd y ffynonellau, caiff hyn ei annog; fodd bynnag, o ystyried y terfynau a osodir gan y cyfrif geiriau cynghorir dysgwyr yn gryf i beidio â defnyddio mwy na deg ffynhonnell gyfoes.

### Pwyntiau allweddol

- Defnyddiwch **o leiaf chwe** ffynhonnell
- Ceisiwch beidio â defnyddio mwy na deg ffynhonnell
- Gall ffynonellau fod o faint tebyg neu gallant amrywio o ran hyd. Gallant fod yn un frawddeg hyd at tua un dudalen

## 2.4 Beth yw ystyr "dehongliad”?

Ar gyfer rhai cwestiynau y bu cryn dipyn o ddadlau hanesyddol amdanynt, mae amrywiaeth o ysgolion o feddwl wedi datblygu. Mae croeso i ddysgwyr gynnwys y rhain ar yr amod eu bod yn gallu eu trafod nhw, a'u datblygiad, yn glir ac yn rhugl. Lle mae'r ddadl yn llai datblygedig a bydd dysgwyr yn cael mwy o anhawster gwahaniaethu rhwng ysgolion o feddwl, efallai y byddan nhw'n dewis gweld dehongliadau'n fwy llac – fel meddyliau, syniadau, neu farn ar y mater. Er enghraifft, efallai y bydd dysgwyr sy'n astudio digwyddiad a newidiodd fywydau pobl gyffredin yn nodi bod y newidiadau hyn wedi digwydd oherwydd rhesymau gwleidyddol, neu resymau economaidd, neu resymau cymdeithasol neu resymau crefyddol. Dehongliadau yw'r 'rhesymau' hyn: dehongliadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, a chrefyddol. Fel arall, gall dysgwyr sy'n astudio'r camau a gymerwyd gan berson nodi bod y rhain wedi digwydd oherwydd rhywbeth a ddigwyddodd iddyn nhw, rhywun y gwnaethant ei gyfarfod, neu rywbeth y gwnaethant ei weld. Byddai'r rhain hefyd yn ddehongliadau o achosion gweithred(oedd) y person hwnnw. Yr hyn sy'n hollbwysig wrth gwblhau'r Asesiad Di-arholiad yw bod dysgwyr yn myfyrio ar y dehongliadau hyn a, trwy ddefnyddio'r ffynonellau cyfoes, yn esbonio sut a pham y ffurfiwyd y dehongliadau hyn. Rhaid iddynt ddefnyddio'r wybodaeth hon i ateb y cwestiwn a osodwyd. Rhaid priodoli dehongliadau i berson neu grŵp, ond nid oes rhaid i bob un o'r rhain fod yn haneswyr a/neu ysgolion hanes. Er enghraifft, gallai dehongliad fod yn safbwynt gwleidydd neu newyddiadurwr yn siarad neu'n ysgrifennu am fater neu ddigwyddiad o'r gorffennol, neu'n wneuthurwr rhaglen ddogfen yn nodi safbwynt penodol. Gall dehongliadau hefyd fod yn safbwynt

### Pwyntiau allweddol

- Mae dehongliadau yn safbwyntiau ar fater sy'n ddadl hanesyddol
- Gallant gynnig safbwyntiau ysgol o feddwl sefydledig, ond nid yw hyn yn ofynnol
- Gallant fod yn safbwyntiau hanesydd sefydledig, ond nid yw hyn yn ofynnol
- Gallant fod yn ddehongliadau gan, er enghraifft, gwleidyddion, newyddiadurwyr, gwneuthurwyr rhaglenni dogfen, awduron, neu gyfarwyddwyr
- Dylai dehongliadau fyfyrio ar y digwyddiad/mater yn y cwestiwn sy'n dangos fod cyfnod o amser wedi mynd heibio rhwng y digwyddiad a ffurfio'r dehongliad

awdur neu gyfarwyddwr mewn bywgraffiad, nofel, drama, rhaglen neu ffilm am y mater neu'r digwyddiad o'r gorffennol. Lle mae'r safbwynt yn un sy'n cael ei fynegi mewn bywgraffiad, nofel, drama, rhaglen neu ffilm, rhaid i ddysgwyr osgoi unrhyw drafodaeth yn ymwneud â chywirdeb y portread a rhaid osgoi ysgrifennu darnau amherthnasol o feirniadaeth o lenyddiaeth, theatr, teledu, neu ffilm yn eu Hasesiad Di-arholiad.

## 2.5 Faint o ddehongliadau sydd eu hangen?

**Yn ogystal â'r** dehongliad a awgrymir yn y cwestiwn disgwylir y bydd dysgwyr yn cynnwys o leiaf dau ddehongliad arall; fodd bynnag, o ystyried y terfynau a osodir gan y cyfrif geiriau cynghorir dysgwyr yn gryf i beidio â defnyddio mwy na thri dehongliad arall.

### Pwyntiau allweddol

- Yn ogystal â'r dehongliad yn y cwestiwn, bydd yr Asesiad Di-arholiad yn cynnwys dau neu dri dehongliad arall

## 3.1 Sut mae'r ffynonellau'n cael eu hintegreiddio?

Er y cyfeirir at gyflwyno'r ffynonellau yn strwythur yr Asesiad Di-arholiad yn Adran 2.1, dewis pob ymgeisydd yw sut i integreiddio 'r ffynonellau i'r ddadl a gyflwynir. Fodd bynnag, ni waeth pa ddull a ddewisir rhaid integreiddio'r ffynonellau. Yr hyn rydym yn ei olygu o ran ymgorffori yw bod yn rhaid i'r canlynol fod yn wir: rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r pwynt sy'n cael ei wneud mewn rhan benodol o'r Asesiad Di-arholiad; rhaid cyfeirio atynt yn y pwynt hwnnw yn yr Asesiad Di-arholiad; rhaid eu dadansoddi a'u gwerthuso o ran eu perthnasedd i'r cwestiwn ar y pwynt hwnnw yn yr Asesiad Di-arholiad. Gellir cynnwys gwerthusiad ychwanegol yn ddiweddarach os/lle bo angen (e.e., i ddadlau yn erbyn neu gefnogi pwynt dilynol). Os yw dwy ffynhonnell neu fwy yn cynnig pwyntiau i gefnogi neu  wrthwynebu, gellir ymdrin â nhw ar y cyd, ond nid yw hyn yn ofynnol.

**Rhaid defnyddio ffynonellau i gefnogi – a ffurfio rhan gydlynol o'r ddadl sy'n dod i'r amlwg drwy gydol yr Asesiad Di-arholiad.**

Lle mae dysgwyr yn integreiddio eu ffynonellau, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn ystyried perthnasedd y ffynhonnell i'r pwynt sy'n cael ei wneud yn ogystal â sut mae dadansoddi a gwerthuso'r ffynhonnell honno yn cyfrannu at y ddadl ehangach ac yn llywio datblygiad y dehongliadau hanesyddol.
Os golygwyd ffynhonnell o ran ei hyd, rhaid iddi wneud synnwyr o hyd, bod yn adlewyrchiad cywir o safbwynt yr awdur, a rhaid nodi unrhyw hepgoriadau drwy ddefnyddio elipsau. Am fanylion pellach am gyflwyno'r ffynhonnell cyfeiriwch at 2.1.

### Pwyntiau allweddol

- Rhaid integreiddio ffynonellau i gorff yr Asesiad Di-arholiad
- Rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r pwynt sy'n cael ei wneud mewn rhan benodol o'r Asesiad Di-arholiad
- Rhaid iddynt gael eu dadansoddi a'u gwerthuso yn unol â'r pwynt sy'n cael ei wneud mewn rhan benodol o'r Asesiad Di-arholiad
- Rhaid iddynt ffurfio rhan gydlynol o'r ddadl sy'n dod i'r amlwg
- Gellir ymdrin â ffynonellau yn unigol, mewn parau neu mewn grwpiau bach drwy gydol yr Asesiad Di-arholiad
- Gellir defnyddio ffynonellau mewn cyfuniad o'r ffyrdd a amlinellir uchod
- Gellir defnyddio ffynonellau cyfan, neu gellir eu golygu yn ddyfyniad llai
- Rhaid i ffynonellau wedi'u golygu fod yn adlewyrchiad cywir o'r ystyr yn y fersiwn wreiddiol

## 3.2 Sut mae'r dehongliadau'n cael eu hintegreiddio?

Er y cyfeirir at gyflwyno'r dehongliadau yn strwythur yr Asesiad Di-arholiad yn Adran 2.1, dewis pob ymgeisydd yw sut i integreiddio'r

### Pwyntiau allweddol

- Rhaid ymgorffori'r dehongliadau i'r Asesiad Di-arholiad

dehongliadau i'r ddadl a gyflwynir. Fodd bynnag, ni waeth pa ddull a ddewisir, rhaid integreiddio'r dehongliadau. Yr hyn rydym yn ei olygu o ran integreiddio yw bod yn rhaid i'r canlynol fod yn wir: rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r pwynt sy'n cael ei wneud mewn rhan benodol o'r Asesiad Di-arholiad; rhaid cyfeirio atynt yn y pwynt hwnnw yn yr Asesiad Di-arholiad; rhaid eu dadansoddi a'u gwerthuso o ran euperthnasedd i'r cwestiwn ar y pwynt hwnnw yn yr Asesiad Di-arholiad. Gellir cynnwys gwerthusiad ychwanegol yn ddiweddarach os/lle bo angen (e.e., i ddadlau yn erbyn neu gefnogi pwynt dilynol). Rhaid dadansoddi a gwerthuso'r dehongliadau o ran eu perthnasedd i'r cwestiwn ac o ran sut y gallent fod wedi'u datblygu yng ngoleuni'r ffynonellau a ddefnyddir ar bwynt penodol yn yr Asesiad Di-arholiad, neu drwy gydol yr Asesiad Di-arholiad.

Fel y nodir yn Adran 2.1, gall dysgwyr fewnoli neu roi'r dehongliadau y maent yn cyfeirio atynt mewn blychau, yn enwedig os yw'r dehongliadau hynny wedi'u crynhoi'n daclus gan ddarn mewn llyfr, neu araith gan arsylwr diweddarach. Os ydyn nhw'n dewis gwneud hyn, yna nid yw'r adrannau hynny sydd wedi'u mewnoli neu eu rhoi mewn blychau yn cyfrannu at y cyfrif geiriau; fodd bynnag, rhaid ymgorffori'r sylwadau, y dadansoddi a'r gwerthuso ar y safbwyntiau hynny i brif gorff yr Asesiad Di-arholiad a rhaid eu cynnwys yn y cyfrif geiriau cyffredinol.

- Rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r pwynt sy'n cael ei wneud mewn rhan benodol o'r Asesiad Di-arholiad
- Rhaid iddynt gael eu dadansoddi a'u gwerthuso yn unol â'r pwynt sy'n cael ei wneud mewn rhan benodol o'r Asesiad Di-arholiad
- Rhaid i ffocws y gwerthusiad ystyried sut a pham y ffurfiwyd pob dehongliad gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael yn y ffynonellau

## 4.1 A ddylai fod troednodiadau a/neu ôl-nodiadau?

Nid oes angen troednodiadau nac ôl-nodiadau gan CBAC; fodd bynnag, gall dysgwyr eu defnyddio os ydynt yn dymuno, er enghraifft, i nodi tarddiad dehongliad neu ddyfyniad (Noder, dylid priodoli'r ffynonellau cyfoes ar bwynt eu cynnwys yn yr Asesiad Di-arholiad). Pan fo ymgeisydd wedi dewis ffynhonnell sydd ddim yn y Gymraeg na'r Saesneg (ar gyfer cyflwyniadau Cymraeg) neu sydd ddim yn Saesneg (ar gyfer cyflwyniadau Saesneg), yna dylent gyfieithu neu drawsgrifio'r ffynhonnell yng nghorff yr Asesiad Di-arholiad a chynnwys y fersiwn wreiddiol yn y troednodiadau neu'r ôl-nodiadau. Pan fydd y ffynhonnell wreiddiol eisoes wedi'i chyfieithu, er enghraifft os yw'n ffynhonnell Almaeneg sydd wedi'i chyfieithu a'i chynnwys mewn llyfr Cymraeg neu Saesneg yn y gorffennol, yna nid oes angen iddynt gynnwys y fersiwn wreiddiol, dim ond cynnwys y cyfeiriad at y llyfr y cymerwyd y ffynhonnell ohono.

Mae troednodiadau neu ôl-nodiadau, os cânt eu defnyddio, ar gyfer darparu gwybodaeth sydd y tu allan i ofynion y cwestiwn: rhaid i ddysgwyr beidio â'u defnyddio i ddatblygu eu hatebion neu i danseilio gofynion y cyfrif geiriau (gweler Adran 4.3).

### Pwyntiau allweddol

- Nid yw troednodiadau ac ôl-nodiadau yn ofynnol gan CBAC, ond gall dysgwyr eu defnyddio os ydynt yn dymuno
- Rhaid peidio â defnyddio troednodiadau i ddatblygu dadleuon y dylid eu cynnwys yng nghorff yr Asesiad Di-arholiad (ac felly osgoi'r cyfrif geiriau)
- Rhaid peidio â chynnwys fersiynau gwreiddiol o ffynonellau wedi'u cyfieithu (h.y., ffynonellau wedi'u cyfieithu gan y dysgwyr) yn y troednodiadau neu'r ôl-nodiadau.

## 4.2 A ddylai fod llyfryddiaeth?

Dylai. Mae llyfryddiaeth yn hanfodol i ganiatáu i aseswyr wirio cywirdeb a dilysrwydd yr Asesiad Di-arholiad. Nid yw CBAC yn nodi sut y mae'n rhaid gosod y llyfryddiaeth, dim ond bod rhaid iddi fod yn glir a chyson, gan ei gwneud yn bosibl i athrawon, cymedrolwyr neu CBAC wirio tarddiad ffynonellau a dehongliadau

### Pwyntiau allweddol

- Rhaid i bob dysgwr ddarparu llyfryddiaeth yn amlinellu'r holl weithiau a ddefnyddiwyd fel rhan o'r Asesiad Di-arholiad
- Yn ddelfrydol dylid defnyddio system gyfeirio gydnabyddedig;

yn seiliedig ar y wybodaeth yn y llyfryddiaeth a ddarperir gan y dysgwyr. Ar gyfer Hanes, mae'n arfer da defnyddio un o'r systemau cyfeirio cydnabyddedig, ac anogir athrawon i esbonio i'w myfyrwyr sut i ddefnyddio'r rhain yn gywir ac yn effeithiol. Ni fydd dysgwyr yn cael eu cosbi os ydynt yn dyfeisio ac yn defnyddio eu dull eu hunain; fodd bynnag, os yw'r dull hwn yn anghyson ac aneglur, ac nad yw'n bosibl gwirio cywirdeb y gwaith yna bydd yn anodd i ganolfannau gwblhau'r ffurflenni dilysu gofynnol. Yn yr un modd â'r troednodiadau a'r ôl-nodiadau, nid yw'r llyfryddiaeth yn cyfrannu at y cyfrif geiriau.
Rhaid cynnwys llyfryddiaeth o'r holl weithiau a ddefnyddiwyd fel rhan o'r Asesiad Di-arholiad, ar daflen ar wahân ar ddiwedd yr Asesiad Di-arholiad, ac nid dim ond y rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer ffynonellau a dehongliadau.

fodd bynnag, does dim rhaid i ddysgwyr ddefnyddio un o'r rhain. Serch hynny, rhaid i'r llyfryddiaeth fod yn glir ac yn gyson
- Nid yw'r llyfryddiaeth yn cyfrannu at y cyfrif geiriau

## 4.3 Beth yw'r cyfrif geiriau?

Ni ddylai'r Asesiad Di-arholiad fod yn fwy na 4,000 o eiriau. Nid oes terfyn is ar nifer y geiriau y gellir eu defnyddio, ond mae ymatebion sy'n sylweddol fyrrach na hyn yn debygol o gosbi eu hunain o ystyried gofynion y dasg a dyfnder y dadansoddi a'r gwerthuso sydd ei angen.
Nid yw'r ffynonellau a ddefnyddir yn yr Asesiad Di-arholiad yn cyfrannu at y cyfrif geiriau, na chwaith y dehongliadau os ydynt yn cael eu mewnoli/eu rhoi mewn blychau/eu gwahanu oddi wrth weddill yr Asesiad Di-arholiad. Fodd bynnag, bydd unrhyw ddyfyniadau dilynol o'r ffynonellau/dehongliadau yn cael eu hystyried yn rhan o'r dadansoddiad a'r gwerthusiad ac mae'n rhaid eu cynnwys tuag at gyfanswm y geiriau.
Lle bo hynny'n berthnasol, nid yw troednodiadau a/neu ôl-nodiadau yn cael eu cynnwys yn y cyfrif geiriau oni bai eu bod yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r ddadl yng nghorff yr Asesiad Di-arholiad. Nid yw'r teitl/cwestiwn na'r llyfryddiaeth wedi'u cynnwys yn y cyfrif geiriau.
Disgwylir i ganolfannau ddilysu bod y cyfrif geiriau a nodir gan bob ymgeisydd yn gyfrifiad cywir o hyd yr Asesiad Di-arholiad. Bydd CBAC yn monitro sampl o gyflwyniadau Asesiad Di-arholiad i sicrhau fod y gwaith o fewn y cyfrif geiriau uchaf, ac felly mae'n hanfodol bod canolfannau'n monitro hyn. Am fwy o wybodaeth cyfeiriwch at Adran 5.1.

### Pwyntiau allweddol

- Ni ddylai'r Asesiad Di-arholiad fod yn fwy na 4,000 o eiriau
- Nid oes terfyn is o ran y cyfrif geiriau
- Mae Asesiadau Di-arholiad sy'n sylweddol fyrrach na 4,000 o eiriau yn debygol o fod yn cosbi eu hunain o ystyried disgwyliadau'r asesiad
- Nid yw ffynonellau'n cyfrannu at y cyfrif geiriau cyffredinol
- Nid yw dehongliadau'n cyfrannu at y cyfrif geiriau os ydynt yn wedi'u mewnoli neu eu rhoi mewn blychau
- Bydd dyfyniadau dilynol o'r ffynonellau a'r dehongliadau (i ategu pwynt penodol) neu drafodaeth yn y testun o'r rhain yn cyfrannu at y cyfrif geiriau

## 5.1 Sut mae'r Asesiad Di-arholiad yn cael ei asesu?

Asesir yr Asesiad Di-arholiad gan athrawon yn y ganolfan gan ddefnyddio'r cynllun marcio a argraffwyd yn y fanyleb wedi'i chymeradwyo. Mae'r cynllun marcio wedi'i rannu ar draws y tri Amcan Asesu (AA) a rhaid i athrawon gymhwyso'r marciau yn seiliedig ar y meini prawf a amlinellir yn y bandiau ar gyfer pob AA. O ystyried pwyslais Amcan Asesu 3 yn yr Asesiad Di-arholiad, cynghorir bod athrawon yn cyfeirio at yr AA hwn yn y lle cyntaf, gan ddechrau ym Mand 1 a gweithio tuag i fyny hyd nes iddynt ddod o hyd i'r band sy'n cynnig y ffit orau i ymateb ymgeisydd penodol. Fel man cychwyn, mae'n arfer da gosod y marc yng

### Pwyntiau allweddol

- Mae'r Asesiad Di-arholiad yn cael ei farcio gan athrawon yn y ganolfan gan ddefnyddio'r cynllun marcio yn y fanyleb wedi'i chymeradwyo
- Dyfernir marciau ar gyfer pob un o'r tri amcan asesu
- Dylai athrawon gael eu harwain gan AA3 i ddechrau a dylent farcio'n gadarnhaol, gan ddechrau ym Mand 1 ac edrych i roi marciau am waith lle bo modd

nghanol y band cyn ystyried a oes nodweddion a fyddai'n ei wthio i frig y band, neu gyfyngiadau a fyddai'n ei dynnu tua gwaelod y band. Efallai bod yr Asesiad Di-arholiad yn cyfateb i feini prawf dau neu fwy o fandiau a lle mae hyn yn wir, cynghorir bod ymatebion yn cael eu rhoi yn y band sy'n cyfateb fwyaf i nodweddion yr Asesiad Di-arholiad cyn defnyddio'r deunydd yn y bandiau eraill i addasu'r marc tuag i fyny neu tuag i lawr. Pan benderfynir ar y band ar gyfer AA3, cynghorir athrawon wedyn i ddilyn yr un broses wrth ystyried y ddau AA arall. Gan amlaf, o ystyried gofynion y bandiau marciau, bydd aseswyr yn gweld nad yw'r marc a ddyfarnwyd ar gyfer AA1 ac AA2 yn fwy na'r marc a ddyfarnwyd ar gyfer AA3; fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn wir, ac efallai y bydd ymatebion annodweddiadol yn cyrraedd band uwch yn AA2 nag yn AA3, er enghraifft, y rhai sy'n cynnig dadansoddiad da iawn o'r ffynonellau, ond gwerthusiad gwan iawn o'r dehongliad.

Wrth farcio'r Asesiad Di-arholiad, mae'n bwysig cofio na ellir ystyried bod Asesiadau Di-arholiad sy'n fwy na'r cyfrif geiriau wedi bod yn gryno, ac felly ni allent gyrraedd Band 6 AA1; Ni ellir penderfynu bod Asesiadau Di-arholiad nad ydynt yn cynnwys isafswm nifer y ffynonellau cyfoes wedi defnyddio deunyddiau ffynhonnell yn briodol ac felly ni allent gyrraedd Band 5 neu uwch ar gyfer AA2; Ni ellir ystyried bod Asesiadau Di-arholiad nad ydynt yn darparu o leiaf dau ddehongliad arall wedi trafod y cwestiwn yng nghyd-destun dehongliadau eraill ac felly ni allent gyrraedd Band 5 neu uwch ar gyfer AA3; Yn AA3, mae sut a pham y gallai dehongliadau fod wedi datblygu yn allweddol i symud i fyny trwy'r bandiau marciau.

Rhaid marcio ac anodi pob Asesiad Di-arholiad cyn cyflwyno marciau i CBAC, ac rydym yn gofyn i'r anodiadau a ddefnyddir fod yn benodol i'r cynllun marcio ac yn nodi'n glir pam mae marc yn cael ei roi am fater penodol.

- Defnyddir dull 'ffit orau' wrth ddewis y band marciau terfynol ar gyfer pob AA
- Ni ellir ystyried bod Asesiadau Di-arholiad sy'n fwy na'r cyfrif geiriau wedi bod yn gryno, ac felly ni allent gyrraedd Band 6 AA1
- Ni ellir penderfynu bod Asesiadau Di-arholiad nad ydynt yn cynnwys isafswm nifer y ffynonellau cyfoes wedi defnyddio deunyddiau ffynhonnell yn briodol ac felly ni allent gyrraedd Band 5 neu uwch ar gyfer AA2
- Ni ellir ystyried bod Asesiadau Di-arholiad nad ydynt yn darparu o leiaf dau ddehongliad arall wedi trafod y cwestiwn yng nghyd-destun dehongliadau eraill ac felly ni allent gyrraedd Band 5 neu uwch ar gyfer AA3
- Yn AA3, mae'r mater o sut a pham y gallai dehongliadau fod wedi datblygu yn allweddol i ddilyniant trwy'r bandiau marciau
- Rhaid i athrawon ddarparu anodiadau i gefnogi'r dyraniad marciau ar yr Asesiad Di-arholiad

## 5.2 A yw canolfannau yn cymedroli'r Asesiad Di-arholiad?

Cyn i ganolfannau gyflwyno eu Hasesiadau Di-arholiad i CBAC ar gyfer cymedroli allanol, y disgwyl yw y bydd proses gymedroli mewnol wedi bod, ond dim ond pan fydd dau neu fwy o athrawon wedi asesu'r garfan. Os yw un athro yn gyfrifol am farcio pob Asesiad Di-arholiad o fewn canolfan, yna nid oes angen i'r gwaith gael ei gymedroli na'i adolygu gan athro arall yn y ganolfan. Ond mae'r canolfannau yn rhydd i wneud hyn os ydynt yn dewis gwneud hynny.

### Pwyntiau allweddol

- **Dim ond** pan fydd mwy nag un athro yn y ganolfan yn marcio'r garfan y dylai canolfannau gymedroli'r Asesiadau Di-arholiad

## 6.1 Sut dylid cyflwyno'r Asesiadau Di-arholiad?

Mae CBAC yn hyblyg yn ei ofynion o ran sut y dylid cyflwyno'r Asesiad Di-arholiad; fodd bynnag, mae rhai nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer pob darn o waith a gyflwynir i'w gymedroli. Dylid cyflwyno pob Asesiad Di-arholiad gan ddefnyddio prosesydd geiriau, a dylid ychwanegu'r cwestiwn llawn, wedi'i ysgrifennu'n gywir, at ddechrau'r Asesiad Di-arholiad; rydym yn cynghori bod hyn yn cael ei wneud ar frig y dudalen gyntaf gan nad oes angen

### Pwyntiau allweddol

- Rhaid i'r Asesiad Di-arholiad gael ei deipio ar brosesydd geiriau
- Rhaid iddo gynnwys y cwestiwn sydd wedi'i gymeradwyo
- Rhaid i bob tudalen fod wedi'i rhifo a chynnwys enw'r ymgeisydd, rhif yr ymgeisydd a rhif y ganolfan

ychwanegu taflen glawr. Dylid cynnwys enw'r ymgeisydd, ei rif ymgeisydd a rhif ei ganolfan ar frig pob tudalen. Yn ogystal â hyn, rhaid rhifo pob tudalen yn glir. Rhaid cyflwyno'r Asesiad Di-arholiad yn glir, ac felly rydym yn argymell ffurfdeip clir mewn maint ffont sy'n ddarllenadwy (e.e., Arial maint 11 neu Times New Roman maint 12). Gellir cyflwyno gwaith â bylchau sengl, 1.5 neu ddwbl yn dibynnu ar ddewis marcio'r athrawon, ac rydym yn annog bod gwaith wedi'i argraffu'n cael ei argraffu ar ddwy ochr y tudalennau i leihau gwastraff (caniateir cyflwyniadau electronig gan fyfyrwyr sydd wedyn yn cael eu marcio ar sgrin gan yr athrawon; fodd bynnag, ar hyn o bryd rhaid argraffu'r rhain i'w cyflwyno trwy'r post i'r cymedrolwyr). Rhaid darparu cyfrif geiriau cywir ar ddiwedd yr Asesiad Di-arholiad, a bydd CBAC yn cynnal gwiriadau ar hap ar y rhain er mwyn sicrhau na fu ymgais i fynd dros y cyfrif geiriau.
Rhaid cynnwys llyfryddiaeth o'r holl weithiau a ddefnyddiwyd fel rhan o'r Asesiad Di-arholiad, ar daflen ar wahân ar ddiwedd yr Asesiad Di-arholiad, ac nid dim ond y rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer ffynonellau a dehongliadau. Nid oes angen atodiadau gan fod rhaid cynnwys yr holl ffynonellau a dehongliadau perthnasol yng nghorff yr Asesiad Di-arholiad.

- Rhaid rhoi cyfrif geiriau cywir ar y gwaith
- Rhaid argraffu llyfryddiaeth ar dudalen ar wahân sy'n amlinellu'r holl weithiau a ddefnyddiwyd fel rhan o'r Asesiad Di-arholiad

## 6.2 Beth ddylid ei anfon at y cymedrolwyr?

Bydd y sampl o waith sy'n cael ei anfon at y cymedrolwyr yn cael ei gynhyrchu ar ôl i'r holl waith gael ei farcio ac i'r marciau hynny gael eu darparu i CBAC. Rhaid i'r sampl gael ei dderbyn gan y cymedrolwr erbyn y dyddiad cau penodol (cysylltwch â TAG Hanes i gael cadarnhad o hyn bob blwyddyn academaidd). Rhaid i'r sampl a dderbynnir gan y cymedrolwr gynnwys yr holl waith y gofynnwyd amdano gan CBAC yn ogystal â ffurflen ddilysu wedi'i llofnodi ar gyfer pob ymgeisydd ac, lle defnyddir hynny, y cofnod cyngor penodol a log y dysgwr. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai canolfannau'n cynnwys ffurflen gyflwyno'r ganolfan/dysgwr sydd wedi'i chymeradwyo. Cofiwch y gall CBAC ofyn am waith ychwanegol gan ganolfan er mwyn egluro mater fel trefn restrol. Gall hyn fod yn sampl benodol o waith ar frig neu waelod yr amrediad marciau, neu gall fod yn waith y garfan gyfan.
Sicrhewch fod gennych bob Asesiad Di-arholiad a'r ffurflenni angenrheidiol i'w hanfon i CBAC pe bai angen y rhain.

## Pwyntiau allweddol

- Rhaid anfon pob darn o waith yn y sampl y gofynnwyd amdano at y cymedrolwr
- Dylech fod â gwaith ychwanegol yn barod i'w anfon rhag ofn y gofynnir amdano
- Rhaid i'r holl waith gynnwys y ffurflen datganiad/dilysu wedi'i lofnodi